

Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd**

Dyddiad: **Dydd Mercher, 10 Rhagfyr 2014**

Amser: **09.30 – 11.27**

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv) yn:
<http://senedd.tv/cy/2510>

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

David Rees AC (Cadeirydd)
Peter Black AC
Janet Finch-Saunders AC
John Griffiths AC
Elin Jones AC
Darren Millar AC
Lynne Neagle AC
Gwyn R Price AC
Joyce Watson AC
Lindsay Whittle AC
Kirsty Williams AC

Staff y Pwyllgor:

Llinos Madeley (Clerc)
Helen Finlayson (Ail Clerc)
Sian Giddins (Dirprwy Clerc)
Rhys Morgan (Dirprwy Clerc)
Gareth Howells (Cyngorydd Cyfreithiol)
Stephen Boyce (Ymchwilydd)
Amy Clifton (Ymchwilydd)
Sian Thomas (Ymchwilydd)
Gwyn Griffiths (Cyngorydd Cyfreithiol)

Trawsgrifiad

Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod](#).

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Davies. Roedd Joyce Watson AC yn dirprwyo ar ei ran.

2 Papurau i'w nodi

2.0a Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 20 a 26 Tachwedd.

2.1 Gwaith craffu ar ôl deddfu ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

2.1a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

4 Gwaith craffu ar ôl deddfu ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: ystyried yr adroddiad drafft

4.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft ar y gwaith craffu ar ôl deddfu ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a chytunodd arno yn amodol ar fân newidiadau.

5 Blaenraglen waith y Pwyllgor

5.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod ei flaenraglen waith a chytunodd i:

- ofyn am friff ffeithiol gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar yr ymgynghoriad ar y *Gronfa Byw'n Annibynnol - trefniadau ar gyfer y dyfodol i gefnogi'r sawl sy'n derbyn taliadau yng Nghymru*;
- ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am ragor o wybodaeth am gyllid iechyd, mewn ymateb i argymhelliad y Pwyllgor Cyllid yn ei adroddiad ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015–16 y dylai'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ymgymryd â darn o waith ar ddiwygio iechyd; ac
- ymgymryd â darn byr o waith yn canolbwyntio ar weithlu meddygon teulu yng Nghymru.

6 Ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd ("cyffuriau penfeddwol cyfreithlon"): ystyried y materion allweddol

6.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y materion allweddol sydd wedi codi yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor i sylweddau seicoweithredol newydd ("cyffuriau penfeddwol cyfreithlon") a chytunodd arnynt.

6.2 Cytunodd y Pwyllgor i ymestyn yr ymchwiliad er mwyn cymryd tystiolaeth lafar gan swyddogion y Swyddfa Gartref yn ei gyfarfod ar 15 Ionawr 2015.

7 Y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrso (Cymru): ystyried yr ymagwedd i graffu yn ystod Cyfnod 1

7.1 Croesawodd y Cadeirydd Peter Black a fydd yn dirprwyo ar ran Kirsty Williams yn ystod busnes ynghylch craffu Cyfnod 1 y Pwyllgor o'r Bil Lefelau Diogel Staff Nyrso (Cymru).

7.2 Ystyriodd y Pwyllgor ei ddull o graffu ar y Bil yng Nghyfnod 1 a chytunodd arno.